

Rhieni!... A oes gennych blentyn sy'n  
serennu mewn

**celf a chreffft?**



## Dosbarthiadau Meistri Celf i Blant Mwy Abl a Thalentog

Mae **Criw Celf** yn cynnig rhaglen o hyfforddiant arbenigol i blant sy'n fwy abl a thalentog ym maes celf weledol. Drwy ein rhaglen o chwe o ddosbarthiadau meistr arbennig, dros gyfnod o chwe mis, gydag artistiaid proffesiynol, mae aelodau **Criw Celf** yn cael...

- Mynediad i addysg celf ychwanegol, dwys o ansawdd uchel
- Meithrin a datblygu sgiliau a dealltwriaeth o gelf weledol a chreffft
- Dysgu am yrfaedd ym maes celf
- Cydweithio ag artistiaid i ddatblygu eu potential a'u gallu
- Arddangos eu gwaith celf mewn oriel broffesiynol
- Gwneud ffrindiau newydd



### Enwebu eich plentyn...

Fel rhiant gallwch enwebu eich plentyn os ydynt wedi eu hadnabod fel disgybl **Mwy Abl a Thalentog (MATH)** ym maes **celf a'u bod ym mlwyddyn 5 i 9** i ymaelodi â'r rhaglen hyfforddiant cyffroes hwn. Gyrrwch enghraifft o'u gwaith celf

atom er ystyriaeth erbyn **23 Tachwedd, 2019**  
darlennwch am yr hyn sydd angen ei gyflwyno  
ar y dudalen nesaf...



**DYDDIAD CAU!**  
**23 Tachwedd**

Cynllun wedi ei gefnogi gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru.

# Cyflwyno gwaith celf...

Postiwch y canlynol i'r cyfeiriad isod...

- Darn o waith celf 2D, dim mwy na maint A2, wedi ei greu gan ddefnyddio unrhyw gyfrwng.
- Dylai'r darn o waith adlewyrchu'r gorau o dy sgiliau creadigol
- Paragraff byr yn egluro pam yr hoffent ymaelodi â Chriw Celf (dim mwy na 50 gair).

Gwnewch yn siŵr bod enw ac oed y plentyn, enw'r ysgol a chyfeiriad cartref a rhif ffôn cartref y plentyn ac ebost rhiant ar gefn y gwaith celf. Defnyddiwch y daflen label ar dudalen 3 o'r bamffled hon a'i atodi i'r gwaith. Cofiwch mai gallu naturiol y plentyn yr ydym angen ei weld wrth asesu'r gwaith celf. Mae'n hanfodol bwysig nad yw'r plentyn yn derbyn cymorth oedolyn nag artist i greu eu gwaith.

Bydd panel o artistiaid yn dethol y plant llwyddiannus ac fe fyddwn yn eu gwahodd i fynychu rhaglen o ddisbarthiadau meistri fydd yn cychwyn ym mis Ionawr 2019; cychwyn da i'r flwyddyn newydd!

*\*Mae modd i blant a'u rhieni hunan-enwebu yn ogystal ond bydd gofyn i'w hathro/awes lofnodi bonyn pwrpasol i warantu fod y plentyn wedi eu hadnabod fel disgybl MATH ym maes celf. Bydd manylion proses hunan-enwebu yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan yn fuan!*

## Cyfeiriad...

Criw Celf Gwynedd a Môn, Archifdy Caernarfon,  
Cyngor Gwynedd, Caernarfon,  
Gwynedd LL55 1SH

Elan Rhys, Cydlynnydd Criw Celf, Portffolio a Codi'r Bar Gwynedd a Môn :  
criwcelfgwynedd@yahoo.co.uk

Rhian George, Criw Celf Gwynedd : 01286 679721  
rhianelingeorge@gwynedd.llyw.cymru

Lia Griffith, Criw Celf Môn : 01248 724444  
liagriffith@ynysmon.gov.uk



[www.criwcelf.co.uk](http://www.criwcelf.co.uk)

### PWYSIG

Mae bwrsari ar gael i gefnogi plant sy'n derbyn cinio am ddim yn yr ysgol, cysylltwch am y manylion os gwelwch yn dda.

**Ffi ymaelodi i rai  
llwyddiannus £38**

